Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

RHIF 41 Tanysgrifiad Blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 AWST 1990

## CROESO

OS dowch chi i'r Brifwyl yng Nghwm Rhymni bydd croeso ichi alw heibio i stondin *Y Casglwr* ar y maes. Fe'i ceir ym mhabell llyfrau hen a newydd YR HEN BOST, Blaenau Ffestiniog. Os byddwch yn ôl eich arfer yn galw i dalu eich tanysgrifiad blynyddol fydd y croeso'n ddim llai. Erbyn hyn yr ydym wedi gorfod peidio ag anfon *Y Casglwr* i'r afresymol ddrwgdalwyr — hyn yn arbed cryn arian; ond croeso i'r rheini ail-ymuno. A pheidiwch ag anghofio Darlith Flynyddol y Gymdeithas — eleni am DDEG o'r gloch yn y Babell Lên FORE GWENER, darlith Dr. Siân Rhiannon ar Y Gymraeg yng Nghwm Rhymni. Ar waetha diarddel aelodau mae'r aelodau newydd wedi cau'r bwlch a diolch am eich cefnogaeth — a chroeso mawr i bob gair ac ysgrif oddi wrthych.

D. WHITESIDE THOMAS a rhyfeddodau platiau'r hen dynnwr lluniau

# DIRGELION TRYSORFA'R DAFLOD

YN YSTOD mis Awst 1986 symudodd teulu'r Kerr o Ganolbarth Lloegr i fwthyn bychan yn rhif 2 Stryd Tomos, Llanberis. Roedd y tŷ mewn cyflwr drwg iawn, a gwaith misoedd o lafur caled yn wynebu'r perchnogion newydd.

Ond ni feddyliodd Mike Kerr y byddai'r clirio wedi golygu cymaint iddo — mewn amser ac arian, oherwydd wrth glirio y siambar dywyll rhwng nenfwd y llofftydd a'r hen do llechi, gwnaeth ddarganfyddiad oedd i achosi cur pen pleserus iddo am y blynyddoedd dilynol.

Roedd yr hen siambar yn llawn o hen gistiau te, fframiau pren a phob math o betheuach eraill wedi eu gorchuddio dan haen drwchus o we pry cop. Pan ddechreuwyd archwilio'r holl bethau'n fanwl, sylweddolwyd mai offer ffotograffig oedd prif gynnwys y drysorfa — a thrysorfa anhygoel oedd hi hefyd.

Yn y cistiau te roedd dros dri chant o wahanol luniau, ac o fewn y fframiau pren roedd bron i gant o blatiau ffotograffig gwydr. Yn ogystal, roedd canfasau cefndir ar gyfer tynnu lluniau portread, a chamerâu neu ddarnau o rai, gan gynnwys un yn dyddio o bosibl i tua 1860. Ar wahân i'r offer ffotograffig roedd cannoedd o wahanol ddogfennau, llythyrau, derbyniadau a phosteri.

Mae llawer o'r lluniau yn dangos grwpiau o chwarelwyr wrth eu gwaith, er nad yw'n bosibl gwybod ym mha chwarel y mae'r lluniau wedi eu tynnu. Ceir hefyd nifer o bortreadau o bobl yn eu 'dillad Sul' — ond anodd iawn fydd ceisio darganfod pwy ydynt.

*Yn ddiddorol iawn, ceir rhai lluniau o ddynion yn ymladd â dyrnau ('bare fist fighting'), ac y mae lle i amau mai chwarelwyr ydynt, ond unwaith eto, nid yw'r cefndir yn ddigon eglur i benderfynu yr union leoliad.*

* * *



*Llun o gorrach a dynnwyd yn y stiwdio yn Llanberis — Isaac Hughes ein hun a baentiodd y cefndir. Mae'r ffon sydd yn llaw dde'r corrach ar gael gyda'r lluniau — ond pwy oedd y corrach sydd ddirgelwch. A oes syniad gan un o'n darllenwyr?*

YN ÔL Mike Kerr mae wedi gwario dros £3,000 o'i arian ei hun i wneud copïau o'r holl luniau, i ddatgelu'r platiau, ac i wneud gwaith ymchwil ar y ffotograffydd.

Enw perchennog y drysorfa anhygoel hon oedd Isaac Hughes ac y mae'n debyg fod ganddo naw stiwdio yma ac acw ar hyd gogledd Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1860 a 1885. Yr oedd un o'r stiwdios hyn yn Llanberis — o bosibl mewn lle o'r enw Anglesey House, er nad oes sicrwydd pendant o hynny.

Mae'n amlwg fod Isaac Hughes yn ŵr busnes eithaf craff, oherwydd mae'n ymddangos mai ef oedd yn gyfrifol am adeiladu'r stryd o dai a elwir yn Stryd Tomos. Ond yn ôl traddodiad,

Parhad ar dudalen 2